OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2217 (Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*6 Medi 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Medi 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 96(10) a 97(3) o Deddf Cydraddoldeb 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Y rheoleiddiwr priodol

2. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu rhagnodi fel y rheoleiddiwr priodol mewn perthynas â chorff cymwysterau sy'n rhoi cymwysterau yng Nghymru.

Cymwysterau Perthnasol

3. Mae'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen wedi eu rhagnodi'n gymwysterau perthnasol mewn perthynas â rhoi cymwysterau yng Nghymru.

(**1**) 2010 p.15. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cychwyn Rhif 1) 2010 (O.S. 2010/1736) adrannau 96 a 97 ar 6 Gorffennaf 2010 i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud is-Deddfwriaeth neu ganllawiau neu'n ymwneud â'r pŵer i wneud hynny.